

cymdeithas.cymru



2ail o Fawrth 2018

Annwyl Bethan Jenkins AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Yn sgil y ddadl a'r cynigion y pasiwyd gan y Cynulliad yr wythnos hon yn ymwneud â darlledu, ysgrifennaf i ofyn yn garedig i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu fynd ati fel mater o frys i gynnal ymchwiliad gyda'r nod o adrodd ar wahanol opsiynau o ran datganoli darlledu a chadarnhau ymarferoldeb sicrhau bod darlledwyr cyhoeddus yn gwbl atebol i Senedd Cymru.

Mae'r bleidlais yr wythnos hon yn newid polisi'r Cynulliad tuag at rymoedd darlledu. Mae gofyn am atebolrwydd llawn i'n Senedd ni yng Nghymru yn rhywbeth mae angen diffinio a mireinio arno.

Ymddengys nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i ymwneud y gwaith ymchwil o ran sut ac i ba raddau y dylid datganoli darlledu i Gymru, felly gofynnwn i'ch pwyllgor wneud y gwaith er mwyn cyflwyno adroddiad sy'n gosod allan y gwahanol opsiynau i weddill y Senedd a sut y gall "atebolrwydd" fod yn ymarferol.

Fel y gwyddoch, mae'r mater yma yn un sy'n hollol ganolog i hyfywedd democratiaeth Gymreig ynghyd â ffyniant y Gymraeg.

Wrth ystyried ei chylch gwaith, mae'r Cynulliad yn amlwg yn cydnabod y dylai S4C fod yn gwbl atebol i Senedd Cymru. Hynny yw, mae'r Cynulliad wedi cytuno yn unfrydol na ddylai S4C fod unrhyw faint yn fwy atebol i senedd San Steffan nag y mae i Senedd Cymru. Fe allai fod yn sefyllfa anodd i'r sianel fod yr un mor atebol i ddwy senedd wahanol ac mae'n bwysig felly ystyried i ba raddau y dylai S4C barhau i fod yn atebol i San Steffan tra ar yr un pryd yn gwbl atebol i Senedd Cymru.

Wrth i'r sianel fod yn atebol i Senedd Cymru, mae'n rhaid felly ystyried i ba raddau y dylai Senedd neu Lywodraeth Cymru cymryd cyfrifoldeb dros y sianel.

Trwy eu cylch gwaith, mae dyletswydd ar y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 i wasanaethu Cymru gymaint ag unrhyw genedl arall o fewn y DG ac felly mae'n rhesymol tybio, yn ôl dymuniad y Cynulliad, y byddai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyn hefyd yn gwbl atebol i Senedd Cymru, gan greu'r angen i ystyried ymarferoldeb hyn yn yr un modd â gyda S4C.

Ni fyddai yn hollol resymol ar yr un llaw sicrhau bod darlledwyr teledu yn atebol i Senedd Cymru tra ar y llaw arall yn caniatáu i ddarlledwyr radio a chyfryngau eraill barhau i fod yn atebol i senedd San Steffan yn unig. Mae'n hanfodol felly bod ymchwiliad yn ystyried oblygiadau cynnig y Cynulliad nid yn unig o ran teledu ond ar ddarlledu yn gyffredinol – trwy bob cyfrwng a phlatfform, yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn gywir,

**Aled Powell**

Cadeirydd Grŵp Dyfodol Digidol  
[aled.powell@cymdeithas.cymru](mailto:aled.powell@cymdeithas.cymru)